

# Hysbysiad hwylus

## Y Cyfansoddiad – Comisiwn y Cynulliad

Ebrill 2007

### Pam cael Comisiwn y Cynulliad?

Un o'r prif newidiadau sy'n deillio o ailgyfansoddi Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel corff deddfwriaethol, sydd ar wahân i'r weithrediaeth a ddaeth i rym yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf"), yw'r angen i sefydlu Comisiwn y Cynulliad er mwyn galluogi trefniadau gweinyddol a chyfreithiol i gael eu gwneud ar gyfer penodi staff, dal eiddo, prynu gwasanaethau, ymrwymo i gontractau ac ati. Mae trefniadau o'r fath yn bodoli eisoes yn yr Alban ac yn San Steffan.

### Darpariaethau ar gyfer Comisiwn yn y Ddeddf

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn creu Comisiwn y Cynulliad. Mae'n darparu ar gyfer sefydlu, pennu aelodaeth a phennu swyddogaethau'r Comisiwn. Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn bod y Comisiwn yn darparu'r staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad i gyflawni ei swyddogaethau (neu'n trefnu eu bod yn cael eu darparu ar gyfer y Cynulliad).

Bydd y Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad arall.

Fel sy'n wir o staff Tŷ'r Arglwyddi a staff Senedd yr Alban, bydd staff y Cynulliad (staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar hyn o bryd) yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn, ac ni fyddant wedyn yn weision sifil.

### Y Comisiwn Cysgodol

Sefydlwyd y Comisiwn Cysgodol drwy bleidlais yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Mai 2006 ac roedd yn Bwyllgor y Cynulliad. Crëwyd y Comisiwn Cysgodol i gynllunio a pharatoi ar gyfer materion y mae'r Comisiwn bellach yn gyfrifol amdanynt. Daeth Comisiwn y Cynulliad i fodolaeth ym mis Mai 2007 yn dilyn Etholiad y Cynulliad.

Cadeiriwyd y Comisiwn Cysgodol gan y Llywydd, ac roedd pedwar Aelod Cynulliad yn ran ohono, un o bob grŵp gwleidyddol y Cynulliad.

- Y Gwir Anrh., Dafydd Elis-Thomas AC (Cadeirydd)
- Lorraine Barrett AC
- Peter Black AC
- William Graham AC
- Elin Jones AC

Trafodwyd y materion a ganlyn gan y Comisiynwyr Cysgodol:

- Adolygu gofynion y gyllideb ar gyfer 2007-2008 a'r blynyddoedd i ddod;
- Y cynllun cyfundrefnol;
- Eiddo;
- Mesur pa mor foddhaol yw'r gwasanaethau a ddarperir;
- Anghenion hyfforddi yn y dyfodol.

## Penodi Aelodau'r Comisiwn

Yn dilyn etholiad Cynulliad, rhaid i'r Cynulliad, o dan y Ddeddf, drafod cynnig a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Busnes sy'n nodi enwau'r pedwar Aelod i gael eu penodi yn aelodau'r Comisiwn.

Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, rhaid i aelodau'r Comisiwn (ac eithrio'r Llywydd) fod yn aelodau o grwpiau gwleidyddol gwahanol.

Os bydd pedwar neu fwy o grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad, mater i arweinydd pob un o'r pedwar grŵp gwleidyddol mwyaf fydd cyfleu i'r Pwyllgor Busnes enw aelod o'i grŵp.

Os bydd llai na phedwar grŵp gwleidyddol yn y Cynulliad rhaid i arweinydd pob un o'r grwpiau gwleidyddol gyfleu i'r Pwyllgor Busnes enw aelod o'i grŵp gwleidyddol a mater i'r Pwyllgor Busnes fydd penderfynu ar enw unrhyw Aelodau ychwanegol.

Os bydd dau neu fwy o grwpiau gwleidyddol a chanddynt yr **un** nifer o aelodau, y Llywydd fydd yn penderfynu pa un o'r grwpiau gwleidyddol hynny fydd yn cael ei gyfrif fel y mwyaf, a hynny drwy roi sylw i lefel y gefnogaeth etholiadol i bob un o'r grwpiau gwleidyddol o dan sylw.

## Ymddiswyddiad neu ddiswyddiad

Bydd aelod o'r Comisiwn yn ymddiswyddo o'r Comisiwn drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Clerc. Ni chaniateir i'r Llywydd ymddiswyddo o'r Comisiwn.

Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig y dylai Aelod penodol (heblaw'r Llywydd) gael ei ddiswyddo o'r Comisiwn. Os cytunir ar unrhyw gynnig o'r fath yn y Cyfarfod Llawn, caiff yr Aelod hwnnw ei ddiswyddo o'r Comisiwn ar unwaith.

## Cyllid ac Adroddiad Blynyddol

Mae'n rhaid i Gomisiwn y Cynulliad, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gyhoeddi a gosod adroddiad gerbron y Cynulliad wrth iddo arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

Mae'n ofynnol bod Comisiwn y Cynulliad yn paratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Caiff y cyfrifon eu cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru, sydd wedyn yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad.

## Dyletswyddau a phwerau eraill

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i'r egwyddorion o ddatblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni ei swyddogaethau.

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pŵer i Gomisiwn y Cynulliad hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r lywodraeth ddatganoledig yng Nghymru, a'r system a ddefnyddir i ethol Aelodau'r Cynulliad.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Gyfres Gyfansoddiadol, cysylltwch â **Dr Alys Thomas** ([Alys.Thomas@cymru.gsi.Gov.UK](mailto:Alys.Thomas@cymru.gsi.Gov.UK)), Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

- Gallwch weld rhestr lawn o'n [hysbysiadau hwylus](#) yma.
- [Geirfa](#)

---

MRS 07/0727 Dr. Alys Thomas

Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at [MembersLibrary@cymru.gsi.gov.uk](mailto:MembersLibrary@cymru.gsi.gov.uk)